**Vaughan Gething AS/MS**
**Gweinidog yr Economi**
**Minister for Economy**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Huw Irranca-Davies AS
Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Paul Davies AS
Cadeirydd Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig

Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

26 Gorffennaf 2021

Annwyl Gadeiryddion,

Rwy'n ysgrifennu atoch i'ch hysbysu y gwnes fynychu cyfarfod o'r Fforwm Gweinidogol ar gyfer Masnach ar 14 Gorffennaf, gyda Greg Hands, y Gweinidog Gwladol ar gyfer Polisi Masnach ac Ivan McKee, y Gweinidog Busnes, Masnach, Twristiaeth a Mentergarwch. Cafwyd diweddariad cyffredinol yn ystod y cyfarfod hwn ynghylch y trafodaethau sy'n parhau am Gytundeb Masnach Rydd, gan gynnwys Partneriaeth Gynhwysfawr y Môr Tawel (CPTPP), Ardal Economaidd Ewrop/Cymdeithas Masnach Rydd Ewrop (EEA EFTA), Awstralia a Seland Newydd.

Gwnes fynegi pryderon ynghylch cwmpas y Cwotâu Tariff a gymeradwywyd yng Nghytundeb Masnach Rydd Awstralia ac ystyriaethau ynghylch safonau lles anifeiliaid. Rwyf wedi gofyn am ragor o wybodaeth am y cytundeb masnach a fydd yn cael ei rhannu pan fydd ar gael ac fel bod y pryderon hyn yn cael eu hystyried cyn gynted ag y bydd cytundebau i'r dyfodol yn cael eu trafod.

Cafodd cytundebau masnach i'r dyfodol gydag India, Canada a Mecsico hefyd eu trafod, ac ers hynny rwyf wedi ymateb yn ysgrifenedig i Greg Hands gan amlinellu ein safbwyntiau cychwynnol ynghylch y cytundebau masnach posibl hyn.

Byddaf yn ysgrifennu atoch unwaith eto i'ch hysbysu ynghylch dyddiad y cyfarfod nesaf.

Yn gywir,

Vaughan Gething

**Vaughan Gething AS/MS**
Gweinidog yr Economi
Minister for Economy

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
YPCCGB@llyw.cymru PSCGMET@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.